ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Y broses o gynllunio cwricwlwm ac asesu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwricwlwm ysgol yw popeth mae'r dysgwr yn ei brofi wrth gyflawni'r pedwar diben. Nid yr hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig yw e, ond sut rydyn ni'n ei addysgu, ac yn hollbwysig, pam rydyn ni'n ei addysgu.

**GOFYN:**
Pam mae'r dysgu hwn yn bwysig? Pam mae'n bwysig i'ch dysgwyr **CHI?**

**CYNLLUNIO:**
Sut mae'r dysgu hwn yn cefnogi eich dysgwyr **CHI** i wneud cynnydd?

**ADDYSGU:**
Sut mae dysgu ac addysgu yn cefnogi'r dysgu hwn?

**MYFYRIO:**
Sut gall amrywiaeth o wybodaeth asesu eich helpu i ddeall sut mae eich dysgwyr **CHI** yn gwneud cynnydd dros amser?

## GOFYN

Ystyried **anghenion a chyd-destunau** eich dysgwyr.

**Dewis dull dysgu** sy'n ymateb i anghenion ac yn ehangu gorwelion, er enghraifft gellid fframio'r dysgu fel cwestiynau hanfodol, syniadau mawr, ac yn y blaen.

Ystyried y ddarpariaeth gyfredol a'r ddarpariaeth arfaethedig: **pam** mae'r dysgu hwn yn werth chweil ar y pwynt hwnnw yn natblygiad y dysgwr?

## CYNLLUNIO

**Gwneud cysylltiadau** â sut y gall gwahanol feysydd dysgu a phrofiad gyfrannu at ddysgu penodol.

Ystyried sut mae dysgu'n gallu **darparu cyfleoedd** i ddatblygu ystod o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau.

Sicrhau bod y dysgu sydd wedi'i gynllunio yn cynnig lefel briodol o **her, ehangder a dyfnder** i alluogi cynnydd.

## ADDYSGU

Cynllunio cyfleoedd a phrofiadau dysgu i helpu dysgwyr i wneud cynnydd.

Ystyried sut y gall **profiadau o'r cwricwlwm** a'r **amgylchedd dysgu** alluogi a gwella'r dysgu hwn.

**Dadansoddi** ystod o offer asesu i sylwi pa ddysgu sy'n digwydd ac **arsylwi** unrhyw ddangosyddion o gynnydd.

## MYFYRIO

Ystyried ystod eang o wybodaeth a **dulliau asesu** fel dangosyddion o gynnydd dysgwyr.

Dod i farn am **gynnydd dysgwyr** a'u rhannu gyda gweithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr.

Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i **lywio gwerthusiadau** o'ch addysgu, y cwricwlwm ac effeithiolrwydd yr ysgol.